Chwefror 2019 - Adolygiad

**PRIFYSGOL BANGOR**
**ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB**

Dylid cynnwys Asesiad Effaith Cydraddoldeb fel rhan hanfodol o'r broses o ddatblygu polisiau newydd, adolygu polisiau a gwneud penderfyniadau strategol a gweithrediadol[1] er mwyn sicrhau y dileeir unrhyw anghydraddoldeb a gwahaniaethu neu y rhoddir sylw iddynt cyn gynted â phosib.

Mae'r rhestr wirio hon yn rhan o ddull y brifysgol o ymdrin ag asesu effaith cydraddoldeb a dylid ei defnyddio i asesu effaith y polisi ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

---

**GRWPIAU CYDRADDOLDEB:**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Oedran** | **Anabledd** | **Ailddynodi gender** | **Beichiogrwydd a mamolaeth** | **Iaith Gymraeg** |
| **Hil** | **Crefydd a chred** | **Rhyw** | **Cyfeiriadedd rhywiol** | **Math o Gontract** |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | | | | |

Sylwer - Mae’n ymarfer da ystyried materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg a math o gontract er bod y meysydd hynny dan ddeddfwriaeth wahanol i Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

**Enw neu deitl y polisi:** -

Rheoliad 13: Rheoliadau Cyffredinol i'r holl Fyfyrwyr

[1] Er y defnyddir y gair POLISI yn y templed hwn, dylid ei newid i STRATEGAETH/PENDERFYNIAD GWEITHREDIADOL fel bo'n briodol

Chwefror 2019 - Adolygiad

| **Gwybodaeth am y polisi:** | |
|---|---|
| Beth yw pwrpas y polisi? | Mae'r Rheoliad hwn yn disgrifio'r rheoliadau cyffredinol sy'n berthnasol i holl fyfyrwyr cofrestredig Prifysgol Bangor. |
| Pwy sy'n gyfrifol am y polisi? | Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio. |
| Beth yw cysylltiad y polisi â blaenoriaethau strategol y brifysgol? | Ein cenhadaeth: "profiad cynhwysol".<br><br>Ein gwerthoedd: "amgylchedd diogel, croesawgar a chynhwysol". |
| Pa grwpiau sy'n rhanddeiliaid yn y polisi? | Myfyrwyr.<br>Staff. |
| A gaiff y polisi ei ddefnyddio yn yr un modd ym mhob maes yn y brifysgol? | Caiff. |
| Nodwch y grwpiau y mae'r polisi'n berthnasol iddynt. | Myfyrwyr. |

| **A roddwyd ystyriaeth i'r materion canlynol? (un o ofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus)** | |
|---|---|
| A allai unrhyw elfennau o'r polisi fod yn wahaniaethol, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol? | Pwrpas y rheoliad yw sicrhau bod proses deg, dryloyw a chyson ar waith i'r myfyrwyr. |
| A ellid defnyddio'r polisi i hyrwyddo amrywiaeth a chyfle cyfartal? | Bwriad y weithdrefn yw sicrhau bod pob parti'n cael cyfle cyfartal a rheolau clir sy'n diogelu hawliau pob myfyriwr. |
| A ellid defnyddio'r polisi i hyrwyddo perthynas dda rhwng pobl? | Bwriad y rheoliad yw sicrhau bod rheolau clir ar waith sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a diogelu. |

Chwefror 2019 - Adolygiad

| **Monitro** | |
|---|---|
| Pa ddata meintiol neu ansoddol sydd ar gael i gyfrannu at y polisi? | Caiff data o bob rhan o'r Brifysgol, yn cynnwys gwybodaeth am gwynion a disgyblu yn ogystal ag adborth gan staff a myfyrwyr eu defnyddio i lywio'r polisi. |

| **Ymgynghori** | |
|---|---|
| Pa grwpiau yr ymgynghorwyd â hwy wrth ddrafftio’r polisi? | Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd sy'n gyfrifol am gymeradwyo a diwygio'r rheoliad hwn. |
| Sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad? | Cyfarfodydd rheolaidd gyda'r rhanddeiliaid allweddol bob blwyddyn a chedwir cofnod ohonynt. Gall unrhyw aelod o'r staff neu'r myfyrwyr awgrymu newidiadau i'r rheoliad trwy'r Cynorthwywr Cydymffurfio a Rheoliadau. |
| Sut mae ymgynghori wedi cyfrannu at ddatblygu'r polisi? | Ymgynghorwyd â'r rhanddeiliaid allweddol er mwyn gwneud y rheoliad yn fwy hygyrch i'r defnyddwyr. Mae gan y weithdrefn gylch adolygu sefydlog lle caiff datblygiadau eu nodi. |

| **Gweithredu** | |
|---|---|
| Sut y gweithredir y polisi? | Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd sy'n gyfrifol am gymeradwyo a diwygio'r rheoliad hwn.<br><br>Bydd y weithdrefn ar gael ar-lein yn www.bangor.ac.uk a hefyd ar ffurf brintiedig ar gais. |
| Pwy fydd yn gyfrifol am weithredu’r polisi? | Mae'r Uwch Swyddog Materion Myfyrwyr yn gyfrifol am sicrhau bod y rheoliad yn cael ei weithredu'n unol â'r hyn a nodir yn y ddogfen. Goruchwylir hyn gan Bwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd. |

Chwefror 2019 - Adolygiad

| **Monitro** | |
|---|---|
| Sut caiff y polisi ei fonitro er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd ei nod? | Mae monitro ac adroddiadau parhaus i Bwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd yn digwydd fel rhan o galendr blynyddol y brifysgol. |
| Pwy fydd yn gyfrifol am fonitro'r polisi? | Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd. |
| Sut caiff y polisi ei fonitro er mwyn sicrhau na wnaiff roi grwpiau penodol dan anfantais? | Caiff unrhyw faterion cydraddoldeb sy'n codi eu harchwilio ar y pryd, a rhaid gwneud unrhyw addasiadau rhesymol. |
| Pryd caiff y polisi ei adolygu i ganfod a yw'n cyrraedd ei nod a'i amcanion? | Mae'r rheoliad hwn ar gylch adolygu 3 blynedd, ond caiff ei brofi bob tro y caiff ei ddefnyddio. |

| **Goblygiadau o ran adnoddau** | |
|---|---|
| Hyfforddiant – a oes unrhyw ofynion hyfforddi'n gysylltiedig â datblygu, gweithredu neu fonitro'r polisi hwn? | Mae briffiau'r drefn gwyno sy'n cynnwys gwybodaeth am y rheoliad yn agored i'r holl staff. |
| Beth yw'r goblygiadau eraill o ran adnoddau (yn cynnwys amser a baich gwaith) o weithredu'r polisi hwn? | Mae adnoddau ar-lein yn cael eu datblygu a byddant ar gael yn [www.bangor.ac.uk](http://www.bangor.ac.uk) |

| **ARGYMHELLION A DYDDIAD ADOLYGU** | |
|---|---|
| 3 blynedd | |
| **ASESIAD EFFAITH – LLOFNOD A DYDDIAD** | |
| Steve Barnard | 13 Chwefror 2019 |